Tachwedd
2023

# Life in the UK
## Wales

Ipsos

collective wellbeing
Carnegie UK

## Diolchiadau

Mae bywyd yn y DU wedi bod yn ymdrech tîm o'r cychwyn cyntaf. Diolch i Emily Gray, Alice Diaz, Karl Ashworth a thîm Ipsos am gynnal yr arolwg, casglu'r data a chynnal dadansoddiad o'r ffactorau ac atchweliad. Chwaraeodd Anita Aggarwal, Adam Milne, Jenny Peachey, Hannah Paylor ac Adam Lang rolau hanfodol wrth ddadansoddi ymhellach, trafod data a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a llunio'r adroddiad hwn. Mae Stuart Mackinnon a Sarah Davidson hefyd wedi helpu i fireinio'r meddylfryd a'r neges.

Diolch i Alison Manson am ei rôl o ran dylunio'r adroddiadau a diolch yn fawr hefyd i Helen Holden am gynhyrchu'r logo a thempledi dylunio'r adroddiad.

Roeddem yn ffodus i weitihio gyda Grŵp Ymgynghorol arbenigol yr oedd eu safbwyntiau yn ein cefnogi o ddechrau'r fenter hon hyd at, a chan gynnwys, yr adroddiad hwn. Hoffem ddiolch i Paul Allin (Swyddog Anrhydeddus Ystadegau Gwladol ac aelod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Arbenigol yr Ystadegydd Gwladol), Jacob Ellis (Gwneuthurwr Newid Arweiniol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol), Nancy Hey (Cyfarwyddwr, What Works Wellbeing), Richard Heys (Prif Economegydd Cynorthwyol), Ed Humpherson (Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Awdurdod Rheoleiddio Ystadegau), Ally McAlpine (Prif Ystadegydd, Llywodraeth yr Alban), Matthew McFarland (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon) a Liz Zeidler (Prif Weithredwr, Centre for Thriving Places). Mae Colin Firth a Megan Mathias hefyd wedi rhoi mewnwelediadau defnyddiol. Ni sydd yn gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau neu faterion yn yr adroddiad hwn.

Diolch hefyd i'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg ac am rannu sut beth yw eu bywydau

**Gofynnir i chi ddyfynu'r cyhoeddiad hwn fel a ganlyn:** Wallace, J. and Baker, A. (2023) *Bywyd yn y DU: Cymru.* Dunfermline: Carnegie UK

ISBN number: 978-1-912908-96-7

creative commons

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **4**

**Pam llesiant cyfunol?** **5**

**Cyflwyno'r mynegai** **6**

**Llesiant cyfunol Cymru** **8**
*Sicart 1: Sgorau meysydd llesiant yng Nghymru* *8*
*Sicart 2: Sgorau meysydd llesiant yn ôl anabledd* *9*

**Llesiant cymdeithasol** **10**
*Sicart 3: Sgorau meysydd llesiant yn ôl amddifadedd ardal* *10*

**Llesiant economaidd** **12**
*Sicart 4: Sgorau meysydd llesiant yn ôl deiliadaeth aelwydydd* *12*
*Sicart 5: Sgorau meysydd llesiant yn ôl incwm tai* *13*

**Llesiant amgylcheddol** **15**
*Sicart 6: Sgorau meysydd llesiant yn ôl oedran* *15*

**Llesiant democrataidd** **17**

**Trafodaeth ac argymhellion** **18**

**Atodiad 1: Tabl crynodeb o sgorau meysydd yn ôl demograffeg allweddol** **21**

# Cyflwyniad

## Mae Cymru yn cymryd camau beiddgar i fod yn wahanol wrth lunio polisïau. Yn 2015, pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud hi'n ofynnol yn gyfreithiol i'r holl gyrff cyhoeddus ddangos sut y maent yn bodloni anghenion heddiw heb beryglu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.[1] Mae'n cynnwys saith nod llesiant, wedi'u dewis drwy ymgysylltu â phobl Cymru, i lywio'r broses o wneud penderfyniadau tuag at yr hyn y mae pobl Cymru ei eisiau ar gyfer y dyfodol.[2] Mae Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad ystadegol blynyddol i asesu cynnydd Cymru tuag at y nodau llesiant hyn, a chyhoeddwyd yr un diwethaf ym mis Medi 2023.[3] Mae'r rheiny sy'n llunio polisïau yng Nghymru wedi ymdrechu i wneud dewisiadau er budd llesiant pobl Cymru yn awr ac yn dyfodol, yn hytrach nag er mwyn sicrhau enillion tymor byr o ran twf economaidd. Er gwaethaf y camau hyn, ac er gwaethaf y ffaith bod Cymru yn mesur cynnydd yn erbyn nifer o ddangosyddion llesiant, Cynnyrch Domestig Gros (GDP) yw'r baromedr o hyd ar gyfer llesiant cyfunol, gan lywio polisïau a thrafodaethau cyhoeddus. Mae GDP ar ben pyramid ystadegau ynghylch unedau cynhyrchu a chafodd ei ddatblygu yn y 1930au i lenwi bylchau yn y wybodaeth oedd ar gael am gyflwr yr economi. Nid mesur llesiant na chynnydd oedd bwriad GDP erioed.[4]


Fodd bynnag, mae yna rywbeth am symledd (camarweiniol) rhif unigol, a chan nad oes opsiwn arall, defnyddir GDP yn aml i fesur 'sut beth yw bywyd' yn y DU. Ond beth petai un rhif unigol fyddai'n ysgogi llywodraethau i bennu nod o lesiant cyfunol? A allem ddod â data ynghyd o wahanol agweddau ar ein bywydau er mwyn rhoi llun cyfoethocach o'r sefyllfa wirioneddol? Os felly, a allem fonitro hynny dros amser i ddangos a yw pethau'n gwella neu'n gwaethygu? A thrwy wneud hynny, a allem helpu i greu achos yn y DU dros ddull ehangach o fesur a gweithredu ar yr hyn sy'n bwysig? Dyna'r cwestiynau a wnaeth ein hysbrydoli i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Mae'n bwysig cydnabod bod llesiant cyfunol yn gysyniad eang, ac mae angen gwahanol pwysleisiau gan ddibynnu ar gyd-destun i'w fesur. Dyluniwyd mynegai Bywyd yn y DU i fesur llesiant ar draws holl awdurdodau'r DU. Felly nid ydym wedi cipio'r pwyslais unigryw y mae'r Cymry yn ei roi ar eu diwylliant a'u hiaith wrth ddiffinio llesiant, fel a welir yn saith nod llesiant Cymru.[5] Fodd bynnag, ein gobaith yw y bydd y mynegai hwn yn cyfrannu at symudiad ehangach, ar draws Cymru a'r DU, i fesur yr hyn sy'n bwysig. Mae'r briffiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau blwyddyn gyntaf ein mynegai Bywyd yn y DU newydd. Mae'n canolbwyntio ar ganfyddiadau arolwg o 531 o bobl yng Nghymru, oedd yn rhan o arolwg Bywyd yn y DU mwy o 6,941 o bobl ar draws a DU, a gynhaliwyd rhwng 18 a 24 Mai 2023.

## Canfyddiadau allweddol

**Yn gyson, mae gan y rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad sgorau is o ran llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd na'r rheiny yn yr ardaloedd lleiaf amddifad.**

**Mae gan bobl anabl, y rheiny mewn llety rhentu, y rheiny ar incwm isel a phobl iau sgorau llesiant cyfunol is.**




**Y sgôr llesiant cyfunol ar gyfer Cymru yn 2023 yw 62 allan o 100.**

[1] Llywodraeth Cymru, 2021. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Yr hanfodion. Ar gael drwy fynd i: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-hanfodion-2021.pdf

[2] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2023. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael drwy fynd i: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

[3] Cyhoeddwyd yr un diwethaf o'r adroddiadau hyn ym mis Medi 2023. Llywodraeth Cymru, 2023. Llesiant Cymru 2023. Ar gael drwy fynd i: https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023

[4] Gaukroger, 2023. A Critical Assessmant of GDP as a Measure of Economic Performance and Social Progress. Ar gael drwy fynd i: https://carnegieuk-trust.org.uk/publications/a-critical-assessment-of-gdp-as-a-measure-of-economic-performance-and-social-progress/.


[5] Llywodraeth Cymru, 2021. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Yr hanfodion. Ar gael drwy fynd i: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-10/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-hanfodion-2021.pdf

# Pam llesiant cyfunol?

**Mae Carnegie UK wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o ddeall a mesur llesiant ers dros ddegawd. Dros yr adeg hon, rydym wedi cefnogi llywodraethau i ystyried cynnydd cymdeithasol yn ehangach ac i gydbwyso canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd (SEED) yn y broses o wneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau a chynllunio hirdymor.[6]**

Mae yna ymchwil a thystiolaeth cynyddol sy'n dangos bod blaenoriaethu llesiant cyfunol wrth wneud penderfyniadau yn ddull effeithiol o sicrhau ansawdd bywyd da a chynaliadwy.[7] Mae mesur yn hanfodol yn y broses hon: pe byddai llesiant cyfunol yn fesur allweddol o lwyddiant, byddai'n llywio trafodaeth gyhoeddus a'r penderfyniadau y mae llywodraethau'n eu gwneud, a fyddai yn ei dro yn pennu i ble mae adnoddau'n mynd, a'r hyn sy'n cael ei wneud.

Yn 2019, dechreuom arbrofi â mynegai llesiant. Wedi ein hysbrydoli gan y Canadian Index of Wellbeing a'r Oxfam Humankind Index, roeddem ni am weld a yw'n bosibl creu un rhif unigol sy'n ateb y cwestiwn o 'sut beth yw bywyd'.



**Llesiant cymdeithasol**

Mae gan bob un ohonom y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom i ffynnu.

**Llesiant economaidd**

Mae gan bob un ohonom safon foddhaol o fyw

**Llesiant amgylcheddol**

Mae pob un ohonom yn byw o fewn adnoddau naturiol y blaned.

**Llesiant democrataidd**

Mae gan bob un ohonom lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnom.

[6] Er enghraifft, mae Carnegie UK wedi cefnogi datblygu Fframwaith Llesiant yng Ngogledd Tyne a gwreiddio Fframwaith Llesiant yng Ngogledd Iwerddon.

[7] Er enghraifft: Effaith y Ddeddf – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Llesiant Seland Newydd: A yw'n gynaliadwy a beth yw'r risgiau? - Papur cefndir  i Te Tai Waiora: Wellbeing in Aotearoa New Zealand 2022 - 24 Tachwedd 2022 (treasury.govt.nz)

# Cyflwyno'r mynegai

**Canlyniad proses o brofi a mireinio yw mynegai Bywyd yn y DU. Ef yw ein cyfraniad at symudiad eang sy'n ceisio rhoi llesiant wrth wraidd sut y mae llywodraethau yn meddwl a'r hyn maent yn ei wneud.[8]**

## Ein nod oedd creu mynegai sy'n:

- **amserol - wedi'i gyhoeddi o fewn chwe mis o gasglu'r data**
- **cynhwysfawr - rhoi sylw i bob maes llesiant**
- **cadarn - ar gyfer dangosyddion unigol yn ogystal â methodoleg mynegai**
- **perthnasol - mae pobl ar draws y DU yn ei weld yn berthnasol i'w bywydau**
- **ddefnyddiol - i bob un o'r rheiny sydd â diddordeb mewn gwella bywydau yn y DU**

## Dyma'r hyn y mae Bywyd yn y DU yn ei roi:

- un sgôr ar gyfer llesiant cyfunol fydd yn dangos a ydym yn byw'n well neu'n waeth dros amser.
- sgôr ar gyfer pob un o'r pedwar maes llesiant: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd.
- gorau llesiant cyfunol a meysydd ar gyfer pob un o genhedloedd a rhanbarthau'r DU.
- sgorau llesiant cyfunol a sgorau meysydd ar gyfer gwahanol grwpiau demograffeg.

[8] Gweler er enghraifft: OECD Better Life Index, UN "Beyond GDP", Wellbeing Economy Governments partnership. Co-op Community Wellbeing Index, Office for National Statistics (ONS), Scottish Government, Welsh Government and Northern Ireland Assembly. Read more at: Wellbeing Economy Governments (WEGO) : Wellbeing Economy Alliance (weall.org)

## Sut i ddarllen y sgorau llesiant

Mae mynegai Bywyd yn y DU wedi'i ddylunio i ddarparu asesiad cyffredinol o 'sut beth yw bywyd'. Cyfartaledd yw'r sgôr mynegai gyffredinol o'r sgorau ar gyfer pob un o'r pedwar maes llesiant: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd. Mae sgorau uwch yn dangos y gwelsom lefel uwch o lesiant.

- Mae'r mynegai yn seiliedig ar arolwg 26 cwestiwn o fwy na 6,900 o bobl ar draws y DU. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â'r gwahanol meysydd llesiant a chynhaliwyd profion gyda grwpiau ffocws a Grŵp Ymgynghorol. Gweinyddwyd yr arolwg hwn drwy Banel Gwybodaeth Ipsos, panel arolwg tebygolrwydd ar hap sy'n seiliedig ar hapddewis o aelwydydd yn y DU.
- Mae'r sgôr mynegai llesiant cyfunol cyffredinol a'r sgorau meysydd llesiant â gwerth rhwng 0 a 100. Noder, er bod y sgorau ar raddfa o 0 i 100, nad canrannau ydynt.
- Cafodd y sgorau llesiant cyfunol, y sgorau meysydd a'r cwestiynau unigol eu dadansoddi i gymharu agweddau ar fywyd ar gyfer gwahanol mathau o bobl a gwahanol rhannau o'r DU. Mae tabl crynodeb o'r sgorau meysydd wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1.** Rydym ond wedi gwneud sylw ar gysylltiadau sy'n wahanol yn sylweddol.
- Gwnaethom ddefnyddio dadansoddiad o'r ffacotrau i greu'r sgorau mynegai a'r dadansoddiad atchweliad i'n helpu i ddeall pa nodweddion demograffeg (gan gynnwys rhywedd, oedran, incwm, anabledd, amddifad ardal a deiliadaeth) sydd fwyaf cysylltiedig â llesiant cyfunol yn gyffredinol ac â llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd yn benodol. Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i ddefnyddio i strwythuro ein trafodaeth am y nodweddion demograffeg sy'n effeithio ar lesiant drwy gydol yr adroddiad hwn.

Wrth fabwysiadu'r dull hwn, mae mynegai Bywyd yn y DU yn unigryw. Yn y blynyddoedd sydd i ddod, byddwn yn gallu defnyddio'r mesur hwn i fonitro a yw bywydau'n gwella. Eleni, ein canolbwynt yw'r hyn y mae'r data wedi'i ddatgelu am raddau anghydraddoldeb yn y DU.


Cafodd y mynegai ei ddylunio, ei ddatblygu a'i ddadansoddi gan Carnegie UK ac Ipsos mewn partneriaeth. Mae'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i Carnegie UK yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg ar gael yma.




# Llesiant cyfunol Cymru

Ar y cyfan, mae sgôr llesiant cyfunol Cymru yn unol â sgôr y DU, sef 62 allan o 100 (Siart 1). Y sgôr gyffredinol yw'r sgorau ar gyfartaledd ar gyfer llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd ac mae'n mesur a ydym yn 'byw'n dda gyda'n gilydd'.

Ar y cyfan, mae sgôr llesiant cyfunol Cymru yn unol â sgôr y DU ac awdurdodau datganoledig eraill.




**Siart 1:** Sgorau meysydd llesiant yng Nghymru



## Wrth ddadansoddi ymhellach, canfuwyd y canlynol gennym[9]:


**Mae gan bobl anabl** sgôr llesiant cyfunol is o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl[10] (57 o gymharu â 64) (Siart 2).

Mae gan bobl sy'n byw yn yr **ardaloedd mwyaf amddifad** sgôr llesiant cyfunol is na'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf amddifad[11] (55 yn y cwintel isaf o gymharu â 68 yn y cwintel uchaf) (Siart 3).

Mae gan **denantiaid** tai cymdeithasol a thenantiaid preifat sgôr llesiant cyfunol is na pherchnogion tai[12](51 a 52 yn eu tro o gynharu â 65) (Siart 4).

Mae gan **bobl iau** sgôr llesiant cyfunol is o gymharu a phobl hŷn (58 ar gyfer y rheiny rhwng 16 a 34 o gymharu â 65 ar gyfer y rheiny 55 oed a hŷn) (Siart 6).

**Siart 2:** Sgorau meysydd llesiant yn ôl anabledd (gweler y sgorau llawn yn Atodiad 1)





[9] Gwnaethom gynnal dadansoddiad ar gyfer anghydraddoldebau o ran rhywedd ond ni welwyd unrhyw wahaniaethau sy'n sylweddol yn ystadegol.

[10] Mae dau gwestiwn yn gofyn am anabledd: 1) A oes gennych unrhyw gyflwr neu salwch corfforol neu iechyd meddwl y disgwylir iddo bara am 12 mis neu fwy? (graddfa: Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod/Byddai'n well gennyf beidio â dweud). Mae pawb sy'n ateb Oes i 1) yn mynd ymlaen at 2): A oes unrhyw un o'ch cyflyrau neu'ch salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd? (graddfa: Ydy, llawer; Ydy, tipyn bach; Ddim o gwbl; Byddai'n well gennyf beidio â dweud).

[11] Mae mynegeion amddifadoedd lluosog (IMD) yn mesur amddifad cymharol ar gyfer ardaloedd daearyddol bach, sefydlog yn y DU. Mae IMD yn dosbarthu'r ardaloedd hyn yn bum cwintel ar sail anfantais cymharol, lle mai cwintel 1 yw'r mwyaf amddifad a chwintel 5 yw'r lleiaf amddifad.

[12] 'Mae 'perchnogion tai' yn cyfeirio at y rheiny sy'n perchen ar eu tai yn gyfan gwbl neu sy'n prynu drwy forgais.

## Llesiant cydeithasol





**Mae llesiant cymdeithasol yn cynnwys agweddau o iechyd ac iechyd meddwl i ddiogelwch cymdogaethau a dibynnu ar eich gilydd.** Mae sgôr uwch yn golygu y gwelsom lefelau uwch o lesiant ar gyfer y bobl neu'r lleoedd hynny.

### Canfuom:

- Bwlch o 13 pwynt rhwng **pobl anabl** (65) a phobl nad ydynt yn anabl (78) (Siart 2).
- Perthynas linellol wrthgyfartal rhwng **amddifad ardal** a llesiant cymdeithasol: wrth i amddifad ardal leihau, mae sgorau llesiant cymdeithasol yn cynyddu. Y sgôr llesiant cymdeithasol i'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad yw 67 o gymharu ag 80 yn yr ardaloedd lleiaf amddifad (bwlch o 13 pwynt) (Siart 3).
- Bwlch o 17 pwynt rhwng sgorau llesiant cymdeithasol **tenantiaid** tai cymdeithasol (60) a pherchnogion tai (77) (Siart 4).
- Perthynas linellol rhwng llesiant cymdeithasol ac **oedran**, gyda'r rheiny rhwng 16 a 34 yn sgorio 68 o gymharu â 75 i'r rheiny rhwng 35 a 54 a 77 i'r rheiny 55 oed a hŷn (Siart 6).

**Siart 3:** Sgorau meysydd llesiant yn ôl amddifadedd ardal (gweler y sgorau llawn yn Atodiad 1)



## Iechyd ac iechyd meddwl

Mae 10% yn adrodd am iechyd gwael yn gyffredinol ac mae gan 12% iechyd meddwl gwael. Er bod profiad iechyd meddwl yng Nghymru yn gymharol â ffigurau'r DU, mae mwy o bobl yng Nghymru yn adrodd am iechyd gwael yn gyffredinol nag yn Lloegr (10% o gymharu â 7%).

Yn ogystal ag adrodd am iechyd gwaeth yn gyffredinol, mae pobl anabl yn fwy tebygol o adrodd am iechyd meddwl gwael (25% o gymharu â 6% o bobl nad ydynt yn anabl).

Mae pobl iau yn fwy tebygol o adrodd am iechyd meddwl gwael na phobl hŷn (25% o'r rheiny rhwng 16 a 34 oed o gymharu ag 11% o'r rheiny rhwng 35 a 54 oed a 6% o'r rheiny 55 oed a hŷn).

## Diogelwch a chymuned

Mae 21% yn teimlo'n anniogel yn y eu cymdogaeth ar ôl iddi dywyllu. Mae hyn yn is na'r ffigur ar gyfer y DU gyfan, sef 28%. Mae rhywedd yn cael effaith sylweddol, gan fod 31% o fenywod yn adrodd eu bod yn teimlo'n anniogel o gymharu ag 8% o ddynion.

Mae oedran yn cael effaith sylweddol hefyd, gan fod 37% o'r rheiny rhwng 16 a 34 oed yn adrodd eu bod yn teimlo'n anniogel o gymharu â 13% o'r rheiny rhwng 35 a 54 oed a 17% o'r rheiny 55 oed a hŷn. Y rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd cyfoethocach sydd lleiaf tebygol o adrodd eu bod yn teimlo'n anniogel (mae 38% o'r rheiny sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf amddifad yn adrodd eu bod yn teimlo'n anniogel o gymharu ag 11% yn y cymdogaethau lleiaf amddifad).

Mae 70% o bobl yng Nghymru yn adrodd bod ganddynt rywun i ddibynnu arno yn eu cymdogaeth os bydd angen cefnogaeth arnynt. Mae hyn yn amrywio yn ôl oedran - roedd pobl iau yn fwy tebygol o adrodd nad ydynt yn gallu dibynnu ar rywun i'w helpu (25% o bobl rhwng 16 a 34 oed o gymharu ag 16% o'r rheiny rhwng 35 a 54 oed ac 8% o bobl 55 oed a hŷn).

Mae 7% o bobl yng Nghymru yn adrodd eu bod yn ei chael hi'n anodd neu'n anodd iawn mynd i siop leol neu archfarchnad. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r ffigur ar gyfer y DU gyfan, sef 5%.

## Gwahaniaethu

Mae 33% wedi profi gwahaniaethu dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r ffigur hwn yn is na'r DU (40%).

## Llesiant economaidd





**Mae llesiant economaidd yn cynnwys mynediad at incwm boddhaol, fforddiadwyedd, cydnerthedd ariannol, cyfleoedd swyddi a sgiliau.** Mae sgôr uwch yn golygu y gwelsom lefelau uwch o lesiant ar gyfer y bobl neu'r lleoedd hynny.

### Canfuom:

- Perthynas linellol rhwng i**ncwm blynyddol aelwyd** a llesiant economaidd ar gyfer incwm o hyd at £52,000-£99,000. Hynny yw, wrth i incwm gynyddu, mae sgorau llesiant economaidd yn cynyddu hefyd, hyd at £52,000-£99,999, ac wedyn mae'n gostwng ychydig bach. Y sgôr ar gyfer y grŵp incwm isaf yw 60 o gymharu â 77 ar gyfer y grŵp incwm uchaf (bwlch o 17 pwynt) (Siart 5).
- Bwlch o 24 pwynt rhwng sgorau llesiant economaidd **tenantiaid** tai cymdeithasol (49) a pherchnogion tai (73) (Siart 4).
- Perthynas linellol wrthgyfartal rhwng **amddifad ardal** a llesiant economaidd: wrth i amddifad ardal leihau, mae sgorau llesiant economaidd yn cynyddu. Y sgôr llesiant economaidd ar gyfer y rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad yw 60 o gymharu â 78 yn yr ardaloedd lleiaf amddifad (bwlch o 18 pwynt) (Siart 3).
- Bwlch o 10 pwynt rhwng **pobl anabl** (62) a phobl nad ydynt yn anabl (72) (Siart 2).

**Siart 4:** Sgorau meysydd llesiant yn ôl deiliadaeth tai (gweler y sgorau llawn yn Atodiad 1)



## Fforddiadwyedd

Rydym wedi cynnwys dau fesur sy'n gysylltiedig â thlodi absoliwt - y gallu i gadw eich tŷ yn ddigon cynnes a sicrhau bod digon o fwyd i bawb yn yr aelwyd.

- Mae bron i un allan o bump yn cael anhawster cynhesu eu cartrefi (16%).
- Mae bron i un allan o ddeg yn nodi nad oes ganddynt ddigon o fwyd i bawb yn yr aelwyd (7%).

Mae'r canfyddiadau hyn yn unol ag ymatebion ar draws y DU i'r cwestiynau hyn.


Yn dilyn hyn, gwnaethom gynnwys dau fesur sy'n gysylltiedig â thlodi cymharol - y gallu i fforddio wythnos o wyliau i ffwrdd o'r cartref bob blwyddyn (nid aros gyda pherthnasau) ac i gymdeithasu â ffrindiau neu deulu y tu allan o'r cartref unwaith y mis.

- Mae 26% yn methu â fforddio gwyliau.
- Mae 13% yn methu â fforddio i gymdeithasu.

Gofynnom a allai pobl fforddio cost annisgwyl ond angenrheidiol o £850 i ddeall a oes gan bobl ddiogelwch ariannol neu gyfoeth. Canfuom fod un allan o dri yn methu â fforddio cost annisgwyl o £850 (31%). Mae hyn yn unol â'r ffigur ar draws y DU.

Roedd cydberthnasau clir ar gyfer yr holl gwestiynau fforddiadwyedd ac incwm aelwydydd, a nodwyd mai'r rheiny sy'n byw mewn aelwydydd ag incwm o dan £25,999 oedd yn profi'r lefel uchaf o dlodi absoliwt a thlodi cymharol. Mae Siart 5 yn dangos effaith gyffredinol incwm aelwyd ar feysydd llesiant. Gwnaeth incwm aelwyd isel (hyd at £25,999) leihau'r sgôr ar gyfer llesiant cyfunol, llesiant cymdeithasol a llesiant democrataidd. Nid yw effeithiau tlodi'n gyfyngedig i faes llesiant economaidd.

**Siart 5:** Maes llesiant yn ôl incwm aelwydydd (gweler y sgorau llawn yn Atodiad 1)



## Addysg, sgiliau a chyfleoedd swyddi

Mae 7% yn anfodlon ar eu haddysg a'u sgiliau, yr un ffigur â'r DU gyfan. Mae cyfleoedd swyddi yn fater pryder i 32% o'r boblogaeth, sy'n sylweddol uwch na'r DU, lle mae 23% wedi nodi eu bod yn anfodlon.

## Llesiant amgylcheddol





**Mae llesiant amgylcheddol yn cynnwys mynediad at lecynnau gwyrdd a glas, ansawdd yr amgylchedd lleol a byw o fewn adnoddau naturiol y blaned.** Mae sgôr uwch yn golygu y gwelsom lefelau uwch o lesiant ar gyfer y bobl neu'r lleoedd hynny.

### Canfuom:

- Mae llesiant amgylcheddol yn waeth mewn **ardaloedd amddifadedd lluosog**. Fel y mae Siart 3 yn ei ddangos, y sgôr ar gyfer llesiant amgylcheddol yn yr ardaloedd mwyaf amddifad oedd 57 o gymharu â 72 i'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf amddifad (bwlch o 15 pwynt).
- Mae **oedran** hefyd yn cael effaith gyffredinol ar lesiant amgylcheddol (Siart 6). Nododd y rheiny rhwng 16 a 34 oed sgôr o 61 ar gyfer llesiant amgylcheddol o gymharu â 71 i'r rheiny 55 oed a hŷn.
- Nododd **tenantiaid** yn y sector rhentu preifat a'r sector tai cymdeithasol sgorau is ar gyfer llesiant amgylcheddol na pherchnogion tai (54 a 60 fel ei gilydd o gymharu â 68) (Siart 4).

**Siart 6:** Sgorau meysydd llesiant yn ôl oedran[13] (gweler y sgorau llawn yn Atodiad 1)




[13] Rydym wedi cyflwyno'r dadansoddiad yn ôl tri grŵp oedran: 16 i 34, 35 i 54, a 55 a hŷn. Wrth wneud y penderfyniad hwn, rydym wedi adolygu nifer o wahanol gategorïau. Yn benodol gwnaethom adolygu'r sgorau i'r rheiny rhwng 55 a 64 oed, 65 a 74 oed, a 75 oed a hŷn. Ni chanfuom wahaniaethau sylweddol yn y sgorau llesiant i'r rheiny 55 oed a hŷn ac felly rydym wedi defnyddio un categori i gynrychioli bywyd hŷn.

## Problemau o ran sŵn, aer a sbwriel

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o bobl yng Nghymru yn profi rhai problemau o ran sbwriel (79%). Mae'r gyfran sy'n profi problemau o ran llygredd sŵn ac ansawdd aer yn is, sef 58% a 42%. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y gyfran o bobl yng Nghymru a'r DU sy'n cael problemau o ran llygredd sŵn a sbwriel. Fodd bynnag, mae'r gyfran o bobl sy'n profi problemau o ran llygredd aer yn is yng Nghymru na'r DU (42% o gymharu â 51%).

## Llecynnau gwyrdd ac agored lleol

Mae boddhad ag ansawdd llecynnau gwyrdd neu agored lleol yng Nghymru yn uchel yn gyffredinol; nododd 74% eu bod yn fodlon a nododd 13% eu bod yn anfodlon, sydd yn unol â'r ffigur ar draws y DU.

## Ymdrechion i ddiogelu'r amgylchedd

Mae ein harolwg yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd amgylcheddol lleol ond gofynnom un cwestiwn yn benodol am ymdrechion i ddiogelu'r amgylchedd. Canfuom fod 44% o bobl yng Nghymru yn anfodlon â'r ymdrechion i ddiogelu'r amgylchedd lleol, yn unol â'r ffigur ar draws y DU.

## Llesiant democrataidd




**Mae llesiant democrataidd yn cynnwys ymddiriedaeth mewn sefydliadau allweddol a'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol.** Mae sgôr uwch yn golygu y gwelsom lefelau uwch o lesiant ar gyfer y bobl neu'r lleoedd hynny.

Mae llesiant democrataidd yn unol â'r DU yn gyffredinol ar 39 allan o 100 o bwyntiau posibl, o gymharu â 41 yn y DU.
I bennu'r sgôr llesiant democrataidd, gofynnom gwestiynau am ymddiriedaeth mewn amrywiaeth o sefydliadau (Llywodraeth y DU, cynghorau lleol, yr heddlu, y llysoedd a'r system gyfreithiol, banciau a chyfryngau newyddion). O ran llywodraethu, gofynnom gwestiynau am y gallu i ddylanwadu hefyd. Roedd gennym ddiddordeb mewn gwahanol lefelau llywodraethu ac felly gofynnom am ymddiriedaeth a dylanwad ar lefel DU, ar lefel ddatganoledig ac ar lefel leol.[14]

Dyma'r hyn y dywedodd pobl sy'n byw yng Nghymru:

- Mae 75% yn teimlo nad ydynt yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar y DU gyfan
- Mae 67% yn teimlo nad ydynt yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru
- Mae 56% yn teimlo nad ydynt yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
- Mae gan 36% lefelau isel o ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru
- Mae gan 54% lefelau isel o ymddiriedaeth yn Llywodraeth y DU
- Mae gan 35% lefelau isel o ymddiriedaeth yn y cyfryngau newyddion
- Mae gan 31% lefelau isel o ymddiriedaeth mewn cynghorau lleol
- Mae gan 18% lefelau isel o ymddiriedaeth mewn banciau
- Mae gan 21% lefelau isel o ymddiriedaeth yn yr heddlu
- Mae gan 20% lefelau isel o ymddiriedaeth yn y llysoedd a'r system gyfreithiol

### Dylanwad

Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn teimlo nad ydynt yn gallu dylanwadu ar Lywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU, nac ar y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel leol (75%, 67% a 56%). Roedd cyfran y bobl yng Nghymru a nododd nad ydynt yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar y DU yn debyg i awdurdodau eraill yn y DU heblaw Gogledd Iwerddon, oedd yn uwch o lawer (75% o gymharu â 72% yn Lloegr, 79% yn yr Alban, ac 83% yng Ngogledd Iwerddon).

### Ymddiriedaeth

Y gyfran o'r rheiny yng Nghymru nad ydynt yn ymddiried yn Llywodraeth y DU yw 54%, yn unol â'r ffigur ar draws y DU. Mae ymddiriedaeth mewn cynghorau lleol yn is na'r DU. Mae 31% o bobl yng Nghymru yn adrodd am ymddiriedaeth isel mewn cynghorau lleol o gymharu â 26% yn y DU.

Nid yw ymddiriedaeth yn yr heddlu, y llysoedd a'r system gyfreithiol, yn y cyfryngau newyddion a banciau yn sylweddol wahanol yng Nghymru na rhannau eraill o'r DU.

[14] Gan fod angen i'r mecanwaith ar gyfer creu sgorau meysydd fod yn gyson ar draws y DU, nid ydym wedi cynnwys lefelau ymddiriedaeth a dylanwadu o ran Llywodraeth Cymru yn sgôr y maes.

# Trafodaeth ac argymhellion

Dechreuom Bywyd yn y DU i archwilio sut y mae gwahanol agweddau ar lesiant yn cael eu profi gan y boblogaeth yn ei chyfanrwydd a chan wahanol cymunedau.

Bydd effeithiau deddfwriaeth uchelgeisiol fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn cymryd mwy na'r 8 mlynedd ers i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu i ddod i'r amlwg yn llawn. Fodd bynnag, rydym eisoes yn gweld newidiadau yng Nghymru yn sgil y ddeddfwriaeth hon. Er enghraifft, mae wedi arwain at greu cwricwlwm newydd sydd â llesiant wrth ei wraidd; peilot llwyddiannus o incwm sylfaenol cyffredinol gyda channoedd o bobl sy'n gadael gofal; a strategaeth genedlaethol deng mlynedd ar gyfer iechyd sy'n canolbwyntio ar atal ac yn mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, megis tai, tlodi ac addysg.[15]

Mae ein canfyddiadau hefyd yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud er mwyn i rai agweddau ar fywyd Cymru gyrraedd yr uchelgeisiau sydd gan bobl ar gyfer dyfodol Cymru. O gymharu â'r DU gyfan, mae pobl yng Nghymru yn nodi bod ganddynt ymdeimlad uwch o ddiogelwch yn eu cymunedau. Maent hefyd yn adrodd am lefelau is o wahaniaethu a llygredd aer. **Mae penderfyniadau beiddgar sy'n cynnwys ystyriaethau amgylcheddol**, fel penderfyniad y Prif Weinidog gyda chefnogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i beidio ag adeiladu ffordd liniau'r M4,[16] yn cyfrannu at sicrhau'r boddhad cymharol uchel hwn o ran ansawdd aer i genedlaethau'r dyfodol.[17]



[15] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2022. Mae Cymru – lle nad gair jargon yn unig yw llesiant, ond y gyfraith – yn myfyrio ar saith mlynedd o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n arwain y byd. Ar gael drwy fynd i: https://www.futuregenerations.wales/cy/news/mae-cymru-lle-nad-gair-jargon-yn-unig-yw-llesiant-ond-y-gyfraith-yn-myfyrio-ar-saith-mlynedd-o-ddeddf-cenedlaethaur-dyfodol-syn-arwain-y-byd/

[16] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2020. Ymateb i ganfyddiadau adroddiad M4: Adeiladu cymunedau'r dyfodol gyda thrafnidiaeth lân, fforddiadwy a hygyrch. Ar gael drwy fynd i: https://www.futuregenerations.wales/cy/news/ymateb-i-ganfyddiadau-adroddiad-m4-adeiladu-cymunedaur-dyfodol-gyda-thrafnidiaeth-lan-fforddiadwy-a-hygyrch/

[17] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2020. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar gael drwy fynd i: https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2020/05/FGC-Report-English.pdf

## Argymhelliad 1

**Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, cynghorau lleol a chyrff eraill sy'n destun dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 weithio gyda'i gilydd i gryfhau'r broses o weithredu dull o'r radd flaenaf tuag at lesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.**

Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n dangos bod gwaith i'w wneud o hyd petai Cymru'n dod yn wlad y mae ei phoblogaeth yn dymuno iddi fod, fel y diffinir yn ei saith nod llesiant:

- Mae pobl yng Nghymru yn adrodd am raddau gwaeth o iechyd cyffredinol na Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi mai atal yw'r allwedd o ran creu Cymru iachach yn yr hirdymor.[18] Rhaid ei fod yn dilyn cyngor cyn-Gomisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynyddu'r raddfa a'r cyflymder y mae'r **agenda atal** yn cael ei ddatblygu.[19]
- Canfuom fod graddau sylweddol uwch o anfodlonrwydd o ran cyfleoedd cyflogadwyedd o gymharu â gweddill y DU. Rydym yn cydnabod bod hyn wedi bod yn broblem i Gymru ers amser hir, yn gysylltiedig â'i graddau cynhyrchu a hanes ddad-ddiwydiannu.[20] Fodd bynnag, rydym yn cefnogi argymhellion i gyrff cyhoeddus **ymdrechu tuag at waith teg** ac nid cynyddu cyflogadwyedd yn unig wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.[21]

Gwelsom anghydraddoldebau mewn llesiant yn ôl oedran, lle mae pobl iau yn adrodd eu bod yn waeth o ran rhai agweddau megis iechyd meddwl ac ymdeimlad o berthyn. Unwaith eto mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd y **dull ataliol** tuag at faterion iecyhd a chymdeithasol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo.[22] Bydd diffyg gweithredu ond yn achosi i'r materion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu waethygu wrth iddynt heneiddio.

Ar draws y DU, **mae'r lefel ansicrwydd ariannol yr ydym wedi'i weld yn bryder i ni**. Mae graddfa effaith yr argyfwng costau byw ar gyllid aelwydydd yn codi cwestiynau hanfdol ynghylch faint o sicrwydd ariannol yr ydym am ei gael i bobl. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn ymateb diweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ystadegau Llywodraeth Cymru yn Adroddiad Llesiant Cymru 2023, gan annog "gweithredu beiddgar a brys".[23] Gallwn weld yr effeithiau anghytbwys y bydd hyn yn eu cael ar y rheiny sydd eisoes y mwyaf agored i niwed yn economaidd. Yng Nghymru, mae effaith amddifad ar lesiant yn glir: mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad wedi adrodd am lesiant is ar draws y meysydd SEED. **Rydym yn pryderu am effeithiau parhaus y mae amddifad uwch yn sgil costau byw cynyddol yn eu cael ar y grŵp democrataidd hwn.**

18 Llywodraeth Cymru, 2021. Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar gael drwy fynd i: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-09/a-healthier-wales-our-plan-for-health-and-social-care.pdf
19 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2020. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar gael drwy fynd i: https://www.future-generations.wales/wp-content/uploads/2020/05/FGC-Report-English.pdf
20 Llywodraeth Cymru, 2022. Cyllideb Cymru 2022 Adroddiad y Prif Economegydd. Ar gael drwy fynd i: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-12/welsh-budget-2022-chief-economists-report.pdf
21 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2020. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar gael drwy fynd i: https://www.future-generations.wales/wp-content/uploads/2020/05/FGC-Report-English.pdf
22 Llywodraeth Cymru, 2021. Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar gael drwy fynd i: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-09/a-healthier-wales-our-plan-for-health-and-social-care.pdf
23 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2023. "Nid ydym yn gwneud digon o gynnydd o ran cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan fod darlun cymysg yn erbyn dangosyddion cenedlaethol. Mae angen i ni ddefnyddio'r adroddiad hwn i annog gweithredu beiddgar a brys." Ar gael drwy fynd i: https://www.futuregenerations.wales/cy/news/nid-ydym-yn-gwneud-digon-o-gynnydd-o-ran-cyflawni-deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-gan-fod-darlun-cymysg-yn-erbyn-dangosyddion-cenedlaethol-mae-angen-i-ni-ddefnyddior/

## Argymhelliad 2

**Rhaid i Lywodraeth Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynghorau lleol weithredu i leihau'r bylchau llesiant rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol.**

Yn ogystal, ar draws y DU, mae sgorau llesiant democrataidd isel iawn yn destun pryder, a chafodd Cymru sgôr o 39 yn unig allan o 100. Ffordd allweddol o adennill ymddiriedaeth pobl Cymru yw **buddsoddi, gan Lywodraeth Cymru a chynghorau lleol, mewn cyfleoedd er mwyn i bobl gyfranogi mewn modd ystyrlon at benderfyniadau polisi ar bob lefel.** Mae Cymru eisoes wedi dangos ei bod yn gallu gwneud hyn ar lefel genedlaethol drwy sgyrsiau 'Y Gymru a Garem' yn 2014.[24] Fodd bynnag, mae'r pwyslais hwn ar gynhwysiant wedi lleihau yn sgil gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae angen aildanio hyn.[25] Mae yna hefyd argymhellion ymysg cymdeithas wladol Cymru i wella cyflwr system ddemocrataidd Cymru yn gyffredinol.[26]

Er bod Cymru yn arwain o ran y symudiad llesiant ar draws y DU, rydym yn gwerthfawrogi bod y pwerau ariannol sydd gyda hi i weithredu hyn yn gyfyngiedig iawn. Mae'r her hon yn anoddach yn sgil chwyddiant, felly mae Cyllideb Gwanwyn 2023 yn £900 miliwn yn is mewn termau real nag oedd hi ar y dechrau.[27] Er bod toriadau i wasanaethau cyhoeddus yn ymddangos i fod yn anochel, rydym yn atgoffa Llwodraeth Cymru o'r **ymrwymiad y mae wedi'i wneud i ataliaeth a'r hirdymor yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Wrth wneud penderfyniadau anodd, rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i **flaenoriaethu'r rheiny mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas**, gan gynnwys y rheiny sydd eisoes yn byw mewn ardaloedd amddifad.

## Argymhelliad 3

**Rhaid i bleidiau gwleidyddol, Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol fuddsoddi mewn ymdrechion newydd a chyson i adfer y datgysylltiad â'r broses o wneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol a chynyddu cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant ystyrlon, fel y'i diffinnir yn y Pum Ffordd o Weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

24 Carnegie UK, 2019. The Enabling State: Where are we now? Wales Report Card Assessment. Ar gael drwy fynd i: https://d1s-su070pg2v9i.cloudfront.net/pex/pex_carnegie2021/2019/07/06142441/LOW-RES-3570-ES-Summary-Report-Card-Wales.pdf
25 Carnegie UK, 2019. The Enabling State: Where are we now? Wales Report Card Assessment. Ar gael drwy fynd i: https://d1s-su070pg2v9i.cloudfront.net/pex/pex_carnegie2021/2019/07/06142441/LOW-RES-3570-ES-Summary-Report-Card-Wales.pdf
26 Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2023. Adeiladu sylfeini democratiaeth iachach yng Nghymru. Ar gael drwy fynd i: https://www.wcpp.org.uk/news-and-media/news-article/building-the-foundations-of-a-healthier-democracy-in-wales/
27 Sefydliad Materion Cymru, 2023. IAW Analysis: Budgetary pressures in Wales are here to stay. Ar gael drwy fynd i: https://www.iwa.wales/agenda/2023/08/mark-drakeford-first-minister-welsh-government-budget/

# Atodiad 1: Tabl crynodeb o sgorau meysydd yn ôl demograffeg allweddol

| | | Llesiant cyfunol | Llesiant cymdeithasol | Llesiant economaidd | Llesiant amgylcheddol | Llesiant democrataidd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **62** | **74** | **69** | **66** | **39** |
| **Anabledd** | Pobl anabl | 57 | 65 | 62 | *65* | *37* |
| | Pobl nad ydynt yn anabl | 64 | 78 | 72 | *67* | *39* |
| **Oedran** | 16-34 | 58 | 68 | *64* | 61 | *39* |
| | 35-54 | 61 | 75 | *66* | 64 | *37* |
| | 55 a hŷn | 65 | 77 | *74* | 71 | *40* |
| **Incwm Aelwyd** | £25,999 ac is | *58* | *71* | 60 | *65* | *37* |
| | £26,000 to £51,999 | *63* | *75* | 70 | *68* | *38* |
| | £52,000 to £99,999 | *67* | *79* | 80 | *66* | *42* |
| | £100,000 ac uwch | *65* | *74* | 77 | *66* | *43* |
| **Amddifadedd ardal** | 1af cwintel (amddifad uchaf) | 55 | 67 | 60 | 57 | *36* |
| | 2il gwintel | 61 | 73 | 65 | 66 | *38* |
| | 3ydd cwintel | 63 | 76 | 68 | 68 | *39* |
| | 4ydd cwintel | 64 | 76 | 73 | 69 | *39* |
| | 5ed cwintel (amddifad isaf) | 68 | 80 | 78 | 72 | *41* |
| **Tai** | Rhentu tai cymdeithasol | 51 | 60 | 49 | 60 | *35* |
| | Rhentu tai preifat | 52 | 63 | 53 | 54 | *36* |
| | Perchnogion Tai | 65 | 77 | 73 | 68 | *39* |

Noder: defnyddir testun italig lle nad oes cysylltiad ystadegol sylweddol

Life in the UK
Wales

**Carnegie UK**
Andrew Carnegie House
Pittencrieff Street
Dunfermline
Fife, Scotland
KY12 8AW

**T** +44 (0)1383 721445
**www.carnegieuktrust.org.uk**

Elusen Gofrestredig Rhif: SC 012799 yn gweithredu yn y DU
Elusen Gofrestredig Rhif: 20142957 yn gweithredu yn Iwerddon

Ipsos

collective wellbeing
Carnegie UK